

## Anfon negeseuon E-bost yn ddwyieithog

### Cynllun Iaith Gymraeg

- Mae Cynllun Iaith Gymraeg PA (**Adran 4.1**) yn gosod y drefn ar gyfer gohebu gyda'r cyhoedd. Mae'r drefn hon yn cynnwys gohebu trwy e-bost. Cyfeirier at y Cynllun am fwy o wybodaeth.
- Gyda sefydliad prifysgol mae'r cyhoedd yn cynnwys pob unigolyn, grŵp, neu sefydliad yng Nghymru sy'n dod i gysylltiad â'r sefydliad, yn ogystal â myfyrwyr cofrestredig llawn amser a rhan amser, a darpar myfyrwyr ac aelodau o staff.
- Amcan y canllawiau isod yw rhoi cymorth i staff gydag ychydig o Gymraeg, neu heb Gymraeg o gwbl, neu sy'n ddihyder wrth ddefnyddio Cymraeg yn ffurfiol, i ohebu yn ddwyieithog trwy e-bost.

### Geiriau Allweddol

Bilingual message	Neges ddwyieithog
Contact details	Manylion cyswllt
Departmental Office	Swyddfa'r Adran
Direct line	Llinell uniongyrchol
Disclaimer	Gwadiad
Electronic mail	Post electronig
E-mail	E-bost
Fax.	Ffacs
Message	Neges
Office Tel.	Ffôn y Swyddfa
Room	Ystafell
Tel.	Ffôn
Tel. No.	Rhif Ffôn
Tripnote	Neges awtomatig
Website	Gwefan
Weekly e-mail	E-bost wythnosol
Weekly e-mail to staff	E-bost wythnosol i staff
Weekly e-mail to students	E-bost wythnosol i fyfyrwyr

### Llinellau pwnc

- Dylai llinellau pwnc fod yn ddwyieithog.
- Dylai'r Gymraeg ymddangos yn gyntaf, ac yna'r Saesneg.
- Dyma rai enghreifftiau. Cysylltwch â Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg ar est. 2045 neu e-bostiwch [cyfieithu@aber.ac.uk](mailto:cyfieithu@aber.ac.uk) am fwy o gyfeithiadau.

Confidential	Cyfrinachol
Date of next meeting	Dyddiad y cyfarfod nesaf
FAO (For the attention of)	I sylw
Important	Pwysig
Important message	Neges bwysig
Meeting	Cyfarfod
Message from	Neges oddi wrth
Message from Aberystwyth University	Neges oddi wrth Brifysgol Aberystwyth
Personal	Personol
Urgent	Brys
Urgent message	Neges frys

### Cynllunio negeseuon e-bost dwyieithog

- Gwnewch hi'n glir ar y dechrau mai neges ddwyieithog yw hi (gweler yr enghraifft isod).
- Dylai'r neges Gymraeg ymddangos cyn yr un Saesneg.
- Er mwyn gwahaniaethu'n glir rhwng y ddwy iaith, gellwch ddefnyddio ffont cyffredin i un ac italig i'r llall. Fel arall, dylai'r ddwy iaith fod yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder ac amlygrwydd.
- Cysylltwch â Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg ar est. 2045 neu e-bostiwch [cyfieithu@aber.ac.uk](mailto:cyfieithu@aber.ac.uk) ar gyfer cyfieithu e-byst.

### Enghraifft

[Neges ddwyieithog yw hon. / *This is a bilingual message*  
Gweler isod ar gyfer y fersiwn Saesneg. *Please see below for the English version.*

XXXXXXXXXXXXXXXXXXXXX

[Testun yn Gymraeg i'w gynnwys yma / *Include Welsh text here*]

XXXXXXXXXXXXXXXXXXXXX

[Testun yn Saesneg i'w gynnwys yma / *Include English text here*]

### Cyfarchion

Dear	Annwyl
Hello	Helo
Many thanks	Llawer o ddiolch
Thank you	Diolch
Thank you in advance	Diolch ymlaen llaw
Thank you very much	Diolch yn fawr iawn
Thank you for your co-operation	Diolch am eich cydweithrediad
Thanks a million!	Can mil diolch!
Best wishes	Dymuniadau gorau
Cheers!	Hwyl!
Cheers for now!	Hwyl am y tro!
Kindest regards	Cofion gorau
Regards	Cofion
Yours sincerely	Yn gywir
From	Oddi wrth

### Llofnodion/Manylion cyswllt

- Dylai llofnodion a'r manylion cyswllt mewn pob e-bost cyffredinol fod yn ddwyieithog.
- Gellir defnyddio llofnodion a manylion cyswllt mewn un iaith yn unig ar gyfer pwrpas penodol e.e. gohebiaeth unigol gydag unigolyn di-Gymraeg.
- Dylai'r Gymraeg ymddangos uchaf, neu i'r chwith i'r Saesneg.
- Er mwyn gwahaniaethu'n glir rhwng y ddwy iaith, gellwch ddefnyddio ffont cyffredin i un ac italig i'r llall. Fel arall, dylai'r ddwy iaith fod yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder ac amlygrwydd.
- Mae manylion cyswllt dwyieithog ar gyfer swyddfeydd ac adrannau yn ymddangos yn ddwyieithog eisoes ar bapur pennawd swyddogol. Gellir derbyn rhestr ddwyieithog o swyddfeydd, adrannau, adeiladau a swyddi gan Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg.
- Wrth gynnwys cyfeiriad gwefan cofiwch gyfeirio'r darllynydd at y fersiynau Cymraeg a Saesneg e.e ar gyfer Adran Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff byddai <http://www.aber.ac.uk/cy/sport-exercise/> yn cyfeirio'r darllynydd at y fersiwn Cymraeg, a byddai <http://www.aber.ac.uk/en/sport-exercise/> yn cyfeirio at y fersiwn Saesneg.

- Ceir enghraifft isod o fanylion cyswllt dwyieithog. Os ydych am fersiwn arbennig ar eich cyfer neu ar gyfer eich swyddfa, cysylltwch â Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg ar est. 2045 neu e-bostiwch [cyfieithu@aber.ac.uk](mailto:cyfieithu@aber.ac.uk).

#### Enghraifft

Dr Gwenno Piette  
Swyddog Datblygu'r Gymraeg / *Welsh Language Development Officer*  
Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg / *Centre for Welsh Language Services*  
Yr Hen Goleg / *Old College*  
Stryd y Brenin / *King Street*  
Aberystwyth  
SY23 2AX

Ffôn / *Tel.* (01970-62)2045  
Ffacs / *Fax.* (01970-61)1446  
E-bost / *E-mail* [gws@aber.ac.uk](mailto:gws@aber.ac.uk)  
Gwefan : <http://www.aber.ac.uk/cy/cgg/>  
Website: <http://www.aber.ac.uk/en/cgg/>

#### Datganiad polisi dwyieithog

- Ceir y datganiad isod ar bapur pennawd swyddogol PA. Dylid ei gynnwys hefyd ar e-byst swyddogol.

Yn unol â pholisi dwyieithog Prifysgol Aberystwyth, mae croeso i chi ohebu â'r Brifysgol yn Gymraeg neu yn Saesneg.  
*In accordance with the bilingual policy of Aberystwyth University, you are welcome to correspond with the University in either Welsh or English.*

#### Cynnwys Gwadiad

- Mae angen gwadiad ar rai e-byst. Dylai'r rhain hefyd fod yn ddwyieithog.
- Dylai'r Gymraeg ymddangos uwchben y Saesneg, neu i'r chwith iddi.
- Er mwyn gwahaniaethu'n glir rhwng y ddwy iaith, gellwch ddefnyddio ffont cyffredin i un ac italig i'r llall. Fel arall, dylai'r ddwy iaith fod yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder ac amlygrwydd.
- Awgrymir testun gwadiad isod. Os ydych am eiriad gwahanol, cysylltwch â Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg ar est. 2045 neu e-bostiwch [cyfieithu@aber.ac.uk](mailto:cyfieithu@aber.ac.uk)

#### Enghraifft

GWADIAD / *DISCLAIMER*

[This is a bilingual message. Please see English disclaimer below]

Mae'r e-bost hwn ac unrhyw atodiad sydd ynghlwm wrtho, yn gyfrinachol. Os yw wedi eich cyrraedd mewn camgymeriad dilëwch ef oddi ar eich system. Peidiwch â defnyddio na datgelu'r wybodaeth mewn unrhyw ffordd a rhowch wybod imi ar unwaith os gwelwch yn dda. Gall y neges gynnwys barn personol nad yw o anghenraid yn farn Prifysgol Cymru, Aberystwyth, oni ddywedir hynny'n benodol.

*This e-mail and any attachment is confidential. If you have received it in error, please delete it from your system, do not use or disclose the information in any way, and notify me immediately. The contents of this message may contain personal views which are not necessarily the views of the University of Wales, Aberystwyth, unless specifically stated.*

#### Atebion e-bost awtomatig

- Dylai pob ateb e-bost awtomatig fod yn ddwyieithog.

- Dylai'r Gymraeg ymddangos uwchben y Saesneg, neu i'r chwith iddi.
- Er mwyn gwahaniaethu'n glir rhwng y ddwy iaith, gellwch ddefnyddio ffont cyffredin i un ac italig i'r llall. Fel arall, dylai'r ddwy iaith fod yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder ac amlygrwydd.
- Ceir enghreifftiau o atebion awtomatig isod. Os ydych am fersiwn penodol, cysylltwch â Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg ar est. 2045 neu e-bostiwch [cyfieithu@aber.ac.uk](mailto:cyfieithu@aber.ac.uk).
- Mae modd gosod ateb e-bost awtomatig drwy gysylltu â gwefan Gwasanaethau Gwybodaeth, yn Gymraeg : <http://www.aber.ac.uk/cy/is/email/> ac yn Saesneg : <http://www.aber.ac.uk/en/is/email/>

#### **Engheifftiau o atebion awtomatig**

- Ni fyddaf yn y swyddfa tan [2/9/10].
- *I shall be away from the office until [2/9/10].*
- Byddaf ar wyliau tan [2/9/10].
- *I'm on holiday until [2/9/10].*
- Nid wyf yn y gwaith ar hyn o bryd.
- *I am not at work at present.*
- Rwyf i ffwrdd o'r gwaith yn sâl ar hyn o bryd.
- *I'm away from work due to illness at the moment.*
- Oherwydd salwch, nid wyf yn y gwaith heddiw.
- *Due to illness, I am not at work today.*
- Oherwydd rhesymau personol, nid wyf yn y gwaith heddiw.
- *Due to personal reasons, I am not at work today.*
- Rwyf ar gyfnod mamolaeth hyd [17/12/10].
- *I am on maternity leave until [17/12/10].*
- Rwyf ar gyfnod tadolaeth hyd [17/12/10].
- *I am on paternity leave until [17/12/10].*
- Yn ystod f'absenoldeb, a wnewch chi gysylltu â fy ysgrifenyddes, [AB].
- *Please contact my secretary, [AB], during my absence.*
- Gellir cysylltu â fy ysgrifenyddes drwy ffonio [1234] neu drwy anfon e-bost at \*\*\*@aber.ac.uk
- *My secretary may be contacted by telephoning [1234] or by e-mailing \*\*\*@aber.ac.uk*
- A wnewch chi gysylltu â fy ysgrifenyddes ar estyniad [1234] neu e-bost \*\*\*@aber.ac.uk
- *Please contact my secretary on extension [1234] or e-mail \*\*\*@aber.ac.uk*
- Fe wnaif ymdrin â phob ymholiad ar ôl imi ddychwelyd i'r gwaith.
- *I shall deal with all queries upon my return.*